
Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 13 Mawrth 2020

1. Trosolwg

Mae gwasanaethau symudol dibynadwy yn hanfodol erbyn hyn i'r ffordd mae pobl yn byw ac yn gweithio ar draws y DU. Mae angen i weithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO) ymateb i ofynion cynyddol pobl a busnesau drwy gynyddu capasiti a darpariaeth eu rhwydweithiau – a thrwy fabwysiadu technolegau newydd.

Ofcom sy'n rheoli'r sbectrwm radio y mae cyfathrebu symudol yn dibynnu arno. Mae sicrhau gwell gwasanaethau band eang a symudol yn un o'n prif flaenoriaethau. Yn y ddogfen hon, rydym yn nodi ein penderfyniadau o ran dyfarnu sbectrwm i alluogi'r diwydiant i ddarparu gwasanaethau sydd â mwy o gapasiti a darpariaeth ehangach, a chynnal technolegau di-wifr newydd, yn cynnwys 5G - y genhedlaeth nesaf o dechnoleg symudol.

Mae cystadleuaeth gref ym marchnad y DU, gyda phedwar rhwydwaith a nifer o ddarparwyr adwerthu eraill yn cystadlu am gwsmeriaid. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r pedwar rhwydwaith symudol wedi lansio gwasanaethau 5G. Mae hyn yn golygu mai'r DU yw un o'r ychydig wledydd lle mae gan gwsmeriaid ddewis o becynnau 5G sy'n gweithredu ar bedwar rhwydwaith gwahanol. Ond mae'r galw am gyflymder uwch a mwy o gapasiti – gan bobl a busnesau – yn cynyddu.

Ein penderfyniad – yn gryno:

- **Dyfarnu trwyddedau cenedlaethol ar gyfer 80 MHz yn y band 700 MHz a 120 Mhz yn y band 3.6-3.8 GHz drwy arwerthiant.**
- **Dim rhwymedigaethau darpariaeth yn y trwyddedau sbectrwm a ddyfernir gennym.** Y rheswm am hyn yw bod y gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi ymrwmo i sicrhau darpariaeth symudol fwy cynhwysfawr yn y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir nag y gallem fynnu ei chael drwy rwymedigaethau darpariaeth wrth ddyfarnu'r bandiau sbectrwm hyn. Mae'r ymrwymïadau hynny, y cytunwyd arnynt gyda'r Llywodraeth, wedi'u cynnwys yn eu trwyddedau sbectrwm cyfredol ac maent yn gyfreithiol rwymol.
- **Cap o 416 MHz (37%) ar gyfanswm y sbectrwm wedi'i ddynodi ar gyfer gwasanaethau symudol y gall unrhyw MNO unigol ei ddal**, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn parhau i elwa o gystadleuaeth gref wrth ddarparu gwasanaethau symudol.
- **Bydd yr arwerthiant yn cynnwys prif gam, yn defnyddio fformat arwerthiant esgynnol aml-rownd (SMRA)**, lle bydd bidio am lotiau amledd generig yn pennu faint o sbectrwm a fydd yn cael ei ennill gan bob cynigiwr ym mhob band; a cham neilltuo i bennu union amleddau lotiau a enillwyd yn y prif gam.
- **Bydd y cam neilltuo'n cynnwys mesurau i helpu i drefnu a chysoni daliadau'r MNOs yn y band 3.4-3.8 GHz ehangach**, gan gynnwys cyfnod ar gyfer trafod lle bydd enillwyr y lotiau yn y band 3.6-3.8 GHz yn gallu cytuno rhyngddynt ar union amleddau y lotiau hynny.